



RHONDDA CYNON TAF

Canllawiau ar Lunio Deiseb



1. Cyflwyniad

- 1.1. Nod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw darparu gwasanaethau o ansawdd da i chi, sy'n hawdd i chi gael gafael arnyn nhw ac sy'n diwallu'ch anghenion fel un o drigolion RhCT.
- 1.2. Mae gan ddeisebau ran allweddol i'w chwarae yn hyn o beth, am eu bod nhw'n annog trigolion i ymwneud yn llawn â'r gwaith o wneud penderfyniadau, boed hynny fel unigolion neu'n rhan o grŵp.
- 1.3. Pe hoffech chi gyflwyno deiseb i'r Cyngor, darllenwch y canllawiau a'r cyfarwyddiadau canlynol yn ofalus cyn llunio a chyflwyno'r deiseb.

2. Cyflwyno'ch Deiseb

- 2.1. Dylai'r deiseb gyfeirio at wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, neu faterion sy'n effeithio ar eich cymuned y mae'r Cyngor yn ymwneud â nhw.
- 2.2. Mae'n bwysig eich bod chi'n nodi pwrpas eich deiseb a'r hyn rydych chi'n awyddus i'w gyflawni mewn modd clir a chryno. Dylai'r teitl fachu sylw pobl, a nodi'n glir pa faes/mater sydd dan sylw.
- 2.3. Dylai datganiad eich deiseb fod wedi'i strwythuro'n dda ac adrodd stori. Dylai wneud y canlynol:
 - Disgrifio'r sefyllfa/problem/mater
 - Nodi pam eich bod chi ac eraill yn ystyried hyn yn fater pwysig
 - Awgrymu'r camau y dylid eu cymryd ac egluro pam

Enghraifft

Mae Stryd Smith yn stryd breswyl ond mae gyrwyr yn ei defnyddio i osgoi tagfeydd ar y priffyrdd prysur.

Mae nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys damweiniau traffig a difrod i geir wedi'u parcio, wedi digwydd o ganlyniad i'r traffig cynyddol yma. Mae hyn hefyd wedi peri i drigolion deimlo'n anniogel, yn enwedig y rheiny sydd â phlant bach.

Dylai'r Cyngor roi mesurau ar waith i atal Stryd Smith rhag cael ei defnyddio yn y modd yma, a chyflwyno mesurau tawelu traffig i wneud yr ardal yn fwy diogel i drigolion a cherddwyr.

2.4. Rhaid i'r ddeiseb gynnwys y canlynol:

- Enw'r prif ddeisebydd - rhaid bod yr unigolyn yma'n byw yn Rhondda Cynon Taf, neu, yn achos busnes neu sefydliad lleol, dylai fod yn fusnes cofrestredig yn ardal Rhondda Cynon Taf; rydyn ni'n cadw'r hawl i wirio eich bod chi'n gymwys.
- Cyfeiriad y prif ddeisebydd, lle caiff pob gohebiaeth ei hanfon.
- Enw, cyfeiriad, cod post a llofnod unrhyw un sy'n cefnogi'r ddeiseb.
- Cyfeirnod cais cynllunio os yw'r ddeiseb yn ymwneud â chais cynllunio. Bydd yr adran gynllunio yn cydnabod ei bod wedi derbyn y ddeiseb trwy anfon llythyr neu e-bost at y prif ddeisebydd.

2.5 Os yw'ch deiseb yn ymwneud â sylw neu gŵyn, neu'n gysylltiedig â materion unigol neu bersonol, dylech chi ddefnyddio proses Rhoi Sylwadau, Canmol a Chwyno'r Cyngor i'w hanfon hi aton ni.

3. Hyrwyddo'ch Deiseb

3.1. Rydyn ni'n eich annog i hyrwyddo'ch deiseb er mwyn sicrhau rhagor o gefnogaeth a chyflawni'ch nod. Mae modd i chi hyrwyddo'ch deiseb yn y cyfryngau lleol (radio a phapur newydd) er mwyn rhoi gwybod i ragor o bobl yn eich cymuned, ac ym mhob rhan o Ronda Cynon Taf, amdani.

4. Sut i gyflwyno'ch deiseb

Cynllunio

4.1 Dylech anfon deisebau sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio yn uniongyrchol i'r adran gynllunio mewn e-bost: gwasanaethaucynllunio@rctcbc.gov.uk neu

Cynllunio
Tŷ Sardis
Heol Sardis
Pontypridd
CF37 1DU

Nodwch fod modd i ddeisebau sy'n ymwneud â cheisiadau cynllunio ymddangos ar-lein. Cyfeirir atyn nhw yn adroddiadau'r Swyddogion ac efallai y byddan nhw'n cael eu dangos i'r Pwyllgor Cynllunio.

Ymgynghoriadau

4.2 Dylech anfon deisebau sy'n ymwneud ag ymgynghoriad cyfredol yn uniongyrchol i'r adran ymgynghori, naill ai drwy e-bostio Ymgynghori@rctcbc.gov.uk neu drwy'r post:

Rhadbost RSBU-HJUK-LSSS
Ymchwil ac Ymgynghori
Y Pafiliynau
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

Materion Eraill

4.3 Dylech gyflwyno pob deiseb arall sy'n ymwneud â busnes y Cyngor i Uned Busnes y Cyngor (cyfeiriad isod) pan fyddwch chi'n sicr ei bod hi'n bodloni'r amodau a amlinellir yn y canllaw yma.

Uned Busnes y Cyngor
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach
CF40 2XX.

4.4 Mae modd i chi hefyd e-bostio'ch deiseb: BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk.
Byddwn ni'n cadarnhau ein bod ni wedi derbyn eich deiseb.

5. Deisebau Ar-lein

5.1 Rydyn ni'n croesawu deisebau ar-lein ar yr amod eu bod nhw'n bodloni'r meini prawf a amlinellir uchod.

Dylech e-bostio'r ddolen i'r ddeiseb derfynol i BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk

6. Beth fydd yn digwydd nesaf?

6.1 Bydd adroddiadau sy'n bodloni'r meini prawf, fel y'u nodwyd gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Gorffennaf 2019, yn cael eu harddangos ar dudalen bwrpasol ar wefan y Cyngor. Byddwn ni hefyd yn cyhoeddi'r ymateb priodol gan yr Aelod perthnasol o'r Cabinet, ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn perthynas â'r ddeiseb.

6.2 Mae'r meini prawf ar gyfer arddangos deisebau ar y dudalen yma fel y ganlyn:

- Deisebau sydd â 60 neu ragor o lofnodwyr, lle mae'n rhesymol disgwyl y bydd y mater yn:
 - i. effeithio ar y Cymunedau sy'n byw neu'n gweithio mewn ardal sy'n cynnwys dwy ward neu adran etholiadol neu fwy;
 - ii. arwain at y Cyngor yn ysgwyddo gwariant sylweddol neu wneud arbedion sylweddol.

6.3 Bydd deisebau sy'n bodloni'r meini prawf uchod yn cael eu cyhoeddi ar y dudalen we bwrpasol, ar yr amod bod y ddeiseb yn nodi'n glir bod y deisebydd wedi cydymffurfio â'r holl hawliau diogelu data a GDPR.

Sut mae'r Cyngor yn defnyddio'ch gwybodaeth

Er mwyn cael yr holl fanylion ynglŷn â sut mae'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol pan fydd deiseb yn dod i law, mynnwch olwg ar yr Hysbysiad Preifatrwydd Deisebau ar dudalennau Diogelu Data'r Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.